

TROWCH EICH LLYGAID YMAITH O BETHAU DIWERTH!

Nodyn i'r siaradwr:

Ymdrechwch i gyrraedd calonnau'r gynulleidfa drwy ddarllen yr adnodau allweddol gyda brwdfrydedd addas a drwy resymu arnynt. Helpwch bawb i werthfawrogi'r pethau rhyfeddol gallwn ni syllu arnynt, a'r rôl bwysig mae hunan-ddisgyblaeth yn ei chwarae yn ein haddoliad i Jehofah

GALL YR HYN A WELWN EFFEITHIO ARNOM (7 mun.)

Mae'n debyg mai'r golwg yw'r prif ddylanwad ar ein meddwl

Mae'r cysylltiad rhwng ein llygaid a'n meddwl yn effeithio'n fawr ar ein hemosiynau a'n hymddygiad (*it-1-E 789*)

Gall yr hyn rydyn ni'n ei weld godi, neu ddwysáu, awydd ac uchelgais ynon ni, er da neu er drwg (*w10-E 4/15 20-21; w86-E 5/1 10-14*)

Er da: Ein golwg sy'n ein galluogi i weld a chanfod prydferthwch, gwerthfawrogi'r pethau rhyfeddol sydd wedi eu creu, gweld tystiolaeth o fodolaeth Duw a'i ogoniant, ac mae'n codi'r awydd ynom i'w blesio (*Sal 8:3, 4; 19:1, 2; 104:24; Rhu 1:20*)

Er drwg: Ni wnaeth Efa, yr angylion gwrthryfelgar, nac Achan droi eu llygaid ymaith rhag gweld nac awchu pethau gwaharddedig (*Ge 3:6; 6:1, 2; Jos 7:20, 21*)

Mae hysbysebwr masnachol modern yn gwybod yn iawn pa mor effeithiol yw denu'r llygaid (*w10-E 4/15 21*)

Felly, mor bwysig yw rheoli ein llygaid!

Dylai geiriau'r salmydd gyffwrdd ein calonnau a'n hysgogi [*Darllenwch Salm 119:37*]

UFUDDHEWCH I DDUW, A THROWCH YMAITH O BETHAU DIWERTH (18 mun.)

Nid yw gwir Gristnogion y tu hwnt i drachwant y llygaid na'r cnawd

Rydyn ni'n cael ein hysgogi i feithrin hunan-ddisgyblaeth ynglŷn â'r pethau rydyn ni'n edrych arnynt ac yn awchu amdanynt (*1Co 9:25a, 27; 1In 2:15-17*)

Ystyriodd Job y cysylltiad rhwng gweld a chwenychu; fe wnaeth gyfamod â'i lygaid [*Darllenwch Job 31:1*]

Gwrthododd Job gyffwrdd â dynes mewn ffordd anfoesol; ni chaniataodd iddo'i hun feddwl y fath beth

Mae'r hyn a wnaeth yr angylion gwrthryfelgar yn oes Noa yn dangos pa mor beryglus yw datblygu'r awydd am berthnasau anfoesol rhywiol (*Ge 6:4-7*)

Rhoddodd Iesu rybudd ynglŷn â hyn [*Darllenwch Mathew 5:28*]

Mae rhywun sy'n dal i "edrych mewn blys" yn datgelu calon sydd angen ei disgyblu, a hefyd bod angen rhoi i farwolaeth chwantau anfoesol (*Col 3:5, 6*)

Heddiw, mae llawer o bobl yn edrych ar bornograffi yn y dirgel, mewn cylechgronau ac ar y we [*Darllenwch Effesiaid 5:3, 4, 12*] (*w10-E 4/15 21-22*)

Gall dewis edrych ar bornograffi dros dro, neu gipolwg damweiniol, ddod â chanlyniadau trist

O ganlyniad, efallai byddwn yn teimlo'n euog, yn ddiwerth, ac yn cael trafferth dileu'r lluniau anfoesol o'r cof

Dylai'n meddwl fod yn gaeth i Grist; mae hynny'n bosibl drwy astudio, hynny yw bwydo'n meddwl a'n calon ar Air Duw, gweddio, a mynychu'r cyfarfodydd Cristnogol (*2Co 10:5; Col 3:9, 10*)

Mae adloniant iachus ar gael, ond mae adloniant sy'n dda i ddim yn hyrwyddo materoliaeth, yr ocwlt, ac yn pwysleisio trais, gwaed, a lladd (*Sal 101:3; w10-E 4/15 22*)

Mae rhieni Cristnogol yn gyfrifol o flaen Jehofah am yr adloniant maen nhw'n ei ganiatáu yn y cartref

Byddwch yn ofalus i osgoi ocwltiaeth sydd ynghudd mewn ffilmiau, rhaglenni teledu, gemau fideo, a llyfrau plant (*w02-E 10/15 11*)

Boed yn hen neu'n ifanc, ni ddylai'n llygaid gael pleser o chwarae gemau fideo sy'n pwysleisio trais, ac yn darlunio lladd mewn ffyrdd realistig a gwaedlyd [*Darllenwch Salm 11:5*] (*g00-E 7/8 28*)

Rhaid inni osod ein llygaid ar bethau iachusol ac adeiladol, a gwrthod canolbwyntio'n meddyliau ar bethau mae Jehofah yn eu casáu

Mae Satan yn targedu ein meddyliau (*2Co 11:3*)

Gall hyd yn oed adloniant sy'n dderbyniol fod yn beryglus, oherwydd bydd treulio *gormod o amser* yn ei wlyo yn gadael llai o amser inni ddarllen y Beibl a pharatoi at y cyfarfodydd (*Php 1:9, 10*)

BYDDWCH YN BENDERFYNOL O DROI YMAITH O'R HYN SY'N DDIWERTH (5 mun.)

Yn affodus, ni allwn osgoi gweld rhai pethau diwerth; roedd hyd yn oed Iesu yn gorfod ymdopi â'r fath bethau (*Mth 4:8*)

Pan ddangosodd y Diafol deyrnasoddedd y byd i Iesu, ni chaniataodd Iesu i'w galon wyro at chwantau drwg, ac nid oedd rhaid iddo ystyried cynnig y Diafol er mwyn ei wrthod

Ymatebodd Iesu'n llym gan wrthod ei gynnig ar unwaith [*Darllenwch Mathew 4:10*]

Roedd ei ymateb yn unol â phwrpas penderfynol ei fywyd, sef gwneud ewyllys Duw (*Heb 10:7*)

Fel dilynwyr Crist Iesu, rydyn ni wedi gwneud penderfyniad personol i droi ymaith rhag pethau diwerth [*Darllenwch Salm 119:101*]

Peryglus yw disgwyl i demtasiwn godi cyn penderfynu beth i'w wneud ynglŷn â phethau mae'r Beibl yn eu gwahardd

Rhaid inni benderfynu beth i'w wneud ymlaen llaw, gan seilio ein penderfyniad ar ein gwybodaeth o'r Ysgrhythurau ac ar ein dymuniad i wneud ewyllys Duw (*w10-E 1/15 3*)

Ni fyddwn ni byth yn difaru cadw llygad “sengl,” llygad sydd â'i holl sylw ar wneud ewylllys Duw, nid yw'n cael ei denu at bethau eraill (Mth 6:22, 23, troednodyn; Heb 10:36)

Mae llawer ohonoch chi wedi bod yn ymdrechu i gadw llygad sengl, ac wedi hen droi eich llygaid ymaith rhag pethau diwerth

Da iawn chi am hynny—yn sicr mae'ch ymdrechion yn gwneud eich Tad cyfiawn yn hapus

Daliwch ati felly, gan osod enghraifft dda i'r newydd a'r ifanc sydd yn y gynulleidfa

Mae bod yn ufudd a 'throi ymaith' rhag gweld pethau diwerth yn ein cadw'n ddiogel ar ffordd Jehofah sy'n arwain at fywyd (Sal 119:37, troednodyn)

(Glynwch yn agos wrth yr amlinelliad hwn, a chadwch at yr amser a bennwyd ar gyfer pob rhan. Does dim rhaid darllen na thrafod pob cyfeiriad. Gweler y llyfr *Ministry School*, tt. 52-54, 166-169)

Rhif 183-W—tudalen 2

I'W DRADDODI MEWN 30 MUNUD

© 2014 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania